# DEDDF CYNLLUNIO (CYMRU) 2015

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 4 – Y weithdrefn cyn ymgeisio

### *Adran 17 - Gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio*

67. Mae'r adran hon yn mewnosod Adran 61Z i DCGTh 1990.

68. Effaith yr adran newydd yw bod rhaid i ymgynghoriad cyn ymgeisio gael ei gynnal gan y rheini sy'n bwriadu gwneud cais am ganiatâd am ddatblygiad o fath a bennir mewn gorchymyn datblygu a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae'r mathau o ddatblygiad y gellid eu pennu at ddibenion y ddarpariaeth hon yn cynnwys, er enghraifft, ddatblygiad mawr a datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig mewn ffordd y disgwylir iddi ddwyn y cynnig i sylw perchenogion a meddianwyr eiddo gerllaw safle'r datblygiad. Caiff Gweinidogion Cymru bennu, drwy orchymyn datblygu, bersonau eraill y mae'n rhaid i'r ceisydd ymgynghori â hwy yngl#n â'r cais arfaethedig.

69. Ni fydd y ddyletswydd yn gymwys i ddatblygiadau brys gan y Goron nac i unrhyw achosion eraill a allai gael eu pennu mewn gorchymyn datblygu. Ymysg yr achosion y gellid eu pennu mewn gorchymyn datblygu mae ceisiadau am ganiatâd cynllunio i ddatblygu tir heb gydymffurfio ag amodau sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio blaenorol, er enghraifft, a cheisiadau am fân ddiwygiadau perthnasol i ganiatâd cynllunio.

70. O dan adran 61Z caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch y broses ymgynghori mewn gorchymyn datblygu, gan gynnwys ffurf a chynnwys dogfennau ymgynghori; gwybodaeth a deunyddiau eraill sydd i'w rhoi i gymdogion ac ymgyngoreion penodedig; ac amserlenni. Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i ymgyngoreion ymateb i'r ymgynghoriad mewn modd penodol ac o fewn amser penodol, ac adrodd wrth Weinidogion Cymru ar sut y cydymffurfiwyd ag unrhyw ofynion o'r fath.

71. Mae adran 17 hefyd yn mewnosod is-adrannau (9), (10) ac (11) i adran 62 o DCGTh 1990. Mae'r is-adrannau newydd hyn yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol mewn gorchymyn datblygu i geisiadau cynllunio ddod gydag adroddiad ymgynghori pan fo'r ceisydd wedi gorfod cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio. Rhaid i'r adroddiad gynnwys manylion yr ymgynghoriad cyn ymgeisio y mae'r ceisydd wedi ei gynnal, yr ymatebion a dderbyniwyd iddo a sut y mae'r ceisydd wedi ystyried yr ymatebion hynny. Caiff gorchymyn datblygu wneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys yr adroddiad ymgynghori.

### *Adran 18 - Gofyniad i ddarparu gwasanaethau cyn ymgeisio*

72. Mae'r adran hon yn mewnosod adrannau 61Z1 a 61Z2 i DCGTh 1990.

73. Mae adran 61Z1 yn rhoi'r p#er i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau cyn ymgeisio gan awdurdodau cynllunio lleol neu

Weinidogion Cymru. Bwriad gwasanaethau cyn ymgeisio yw cynorthwyo person sy'n bwriadu gwneud cais cynllunio. Caiff y rheoliadau nodi pryd y mae gofyn darparu gwasanaethau cyn ymgeisio; natur y gwasanaethau sydd i'w darparu; a'r gofynion o ran cyhoeddi gwybodaeth a dogfennau'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau hynny.

74. Gallai natur y gwasanaethau sydd i'w darparu gynnwys, er enghraifft, ddarparu manylion polisïau a chanllawiau cynllunio perthnasol neu farn swyddogion cynllunio ar rinweddau cynnig.

75. Mae 61Z2 yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru gadw cofnodion o'r gwasanaethau cyn ymgeisio a chyhoeddi gwybodaeth am y mathau o wasanaethau cyn ymgeisio a ddarperir.